Grŵp Llandrillo Menai

ADRODDIAD BLYNYDDOL ANNUAL REPORT

2024-2025

gllm.ac.uk

CROESO I GRŴP LLANDRILLO MENAI
WELCOME TO GRŴP LLANDRILLO MENAI

YouTube



Allwedd
Key

Coleg Llandrillo | Coleg Meirion-Dwyfor | Busnes@LlandrilloMenai
Coleg Menai | COPA

CYNNWYS / CONTENTS

2 Lleoliadau'r Campysau / Aelodau'r Bwrdd
3 Rhagair
4 Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad
5 Ein 5 Thema Allweddol
6 Thema Strategol 1: Cyfleoedd i Ddysgwyr a Llwyddiant Dysgwyr
10 Thema Strategol 2: Ein Lle yn y Gymuned
12 Thema Strategol 3: Defnyddio Sgiliau a Gwybodaeth i Ysgogi'r Economi
14 Thema Strategol 4: Bod ar Flaen y Gad yn y Byd Modern
16 Thema Strategol 5: Ein Rôl mewn Cymru Gynaliadwy
18 Edrych yn Ôl
27 Penawdau Ariannol

2 Campus Locations / Board Members
3 Foreword
4 Our Values and Behaviours
5 Our 5 Key Strategic Themes
6 Strategic Theme 1: Learner Opportunity and Success
10 Strategic Theme 2: Our Place in the Community
12 Strategic Theme 3: Driving the Economy through Skills and Knowledge
14 Strategic Theme 4: Leading the way in a Modern World
16 Strategic Theme 5: Our Role in a Sustainable Wales
18 In Review
27 Financial Headlines

AELODAU'R BWRDD BOARD MEMBERS

Dr Griff Jones
(Cadeirydd / Chair)

Alun Thomas
(Is-gadeirydd / Vice-chair)

Andy Billcliff

Aled Jones-Griffith

Dilwyn Evans

Dafydd Hardy (from 05.25)

Dr Gwyn Jones

Chris Morgans

Hedd Pugh

Marion Pryor

Prof. Carol Tully

Karen Vaughan Jones
(Staff Addysgu / Teaching Staff)

Brian Woosnam (until 04.25)
(Aelod nad yw'n Addysgu
/ Non-teaching)

Chris Brockley (from 05.25)
(Aelod nad yw'n Addysgu
/ Non-teaching)

Bethan Williams Price

Siwan Iorwerth

Margaret Ogunbanwo

Victoria Painter

Rhys Morris
(Llywydd Undeb y Myfyrwyr /
Student Union President)

Heather Spencer
(Llywydd Addysg Uwch Undeb
y Myfyrwyr / Higher Education
Student Union President)

RHAGAIR / FOREWORD

Roedd 2024/25 yn flwyddyn brysur i Grŵp Llandrillo Menai. Sefydlwyd nifer o bartneriaethau newydd, datblygwyd a mireiniwyd y ddarpariaeth ar draws holl arlwy'r Grŵp, ac fe'i harolygwyd gan ESTYN.

Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu Cynghrair Trydyddol Gogledd Cymru (NWTA). Pwrpas y gynghrair yw sicrhau mwy o gydweithio a llai o gystadlu rhwng y pedwar prif ddarparwr addysg a hyfforddiant ôl-16 yng ngogledd Cymru. Llofnododd Grŵp Llandrillo Menai femorandwm cyd-ddealltwriaeth â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam a Choleg Cambria i hwyluso cydweithio ac i gynllunio darpariaeth addysgol o safon a ddaw â buddion i bobl ifanc ac oedolion y rhanbarth, ac a fydd yn diwallu anghenion yr economi leol a rhyngwladol.

Er gwaethaf amgylchiadau heriol i'r sector addysg bellach, parhaodd y Grŵp i berfformio'n gadarnhaol ac yn 2024/25 roedd ei warged EBITDA cyfunol yn £3.15 miliwn (3.3%) (Gwarged coleg £2.60 miliwn (2.9%). Roedd y gostyngiad mewn EBITDA o gymharu â 2023/24 yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn termau real yn y grantiau gan Lywodraeth Cymru, ond serch hynny roedd sgôr iechyd ariannol y Grŵp yn dda.

Wrth i'r Grŵp lansio Prosiect Uchelgais, ei raglen newydd ar gyfer gwella ansawdd yn barhaus, braf oedd croesawu Estyn i'n campysau yn ystod y flwyddyn i weld drostynt eu hunain sut rydym wedi mynd ati i ymateb i rai o'u hargymhellion ers eu harolygiad llawn o addysg bellach yn 2023/24. Yn ystod y flwyddyn cafwyd sawl ymweliad ac arolwg thematig gan Estyn oedd yn gyfle i ni rannu gwybodaeth am y gwaith da sy'n digwydd yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Croesawir yr ymweliadau hyn gan eu bod yn gyfle i ni ganolbwyntio ar drafod â hwy'r amrywiol sectorau rydym ni'n rhan ohonynt a derbyn eu hadborth ar gyfer gwelliant parhaus.

O ganlyniad i'r gwaith rhagorol a wnaed gan yr holl staff wrth ymateb i Brosiect Uchelgais a'i roi ar waith, gwelwyd cynnydd mewn ansawdd ar draws ein holl ddarpariaeth. Roedd ein canlyniadau Addysg Bellach yn 85%, sef 5% yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol a chododd ein cyflawniadau Dysgu Seiliedig ar Waith i 76%, oedd yn gynnydd o 3% ar ganlyniadau 2023/24. Ni fyddai'r llwyddiannau hyn na'r profiadau gwych mae ein dysgwyr yn eu cael yn bosibl heb staff ymrwymedig a phroffesiynol. Diolchwn yn ddiffuant i'n holl staff - yn staff academaidd a staff cefnogi - ar ddiwedd blwyddyn heriol ond lwyddiannus arall i'r Grŵp.

Wrth edrych ymlaen at y dyfodol byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau cyffrous sydd ar y gorwel wrth i Borthladd Rhydd Ynys Môn a'r Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial gael eu datblygu a'r cyfleoedd a ddaw yn eu sgil. Byddwn hefyd yn awyddus i fanteisio ar y cyfleoedd sydd yn ein heconomi sylfaen wrth i gymdeithasau tai fod yn gwario dros ddwy filiwn o bunnoedd ar uwchraddio eu stoc dai, ac wrth gwrs y datblygiadau arfaethedig yn y Wylfa ac yn y dechnoleg Ynni Gwynt arfordirol.

Yn ystod 2025/26 rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein perthynas â MEDR, y rheoleiddiwr Addysg Drydyddol newydd, ac i sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu a chryfhau ein gwaith strategol gyda'r pedwar awdurdod lleol, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion ein cymunedau yn cael cefnogaeth addas i uwchsgilio, i ddatblygu eu gwybodaeth ac i fod yn fwy cyflogadwy.

Wrth gloi, dylid llongyfarch ein holl ddysgwyr sydd wedi cwblhau ei hastudiaethau'n llwyddiannus gyda ni yn ystod y flwyddyn. Rydym yn hynod falch o'r modd mae'r Grŵp wedi gallu cefnogi a hyrwyddo llesiant ein dysgwyr trwy amrywiol ymyraethau a rhaglenni, megis Camau Cefnogol, sydd wedi rhoi cefnogaeth llesiant i dros 3000 o ddysgwyr yn ystod y flwyddyn a'u galluogi i gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus. Mae'n balchder ni yn ein dysgwyr a'n parch ni tuag atynt yn uchel iawn. Dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol.

Aled Jones-Griffith
Prif Weithredwr
Chief Executive Officer

Grŵp Llandrillo Menai had a busy year in 2024/25. A number of new partnerships were established, the provision was developed and refined across all that if offered by the Grŵp, and was inspected by Estyn.

One of the most exciting developments during the year was setting up the North Wales Tertiary Alliance (NWTA). The purpose of the alliance is to ensure more collaboration and less competition between the four main providers of post-16 education and training in north Wales. Grŵp Llandrillo Menai signed a memorandum of understanding with Bangor University, Wrexham University and Coleg Cambria to facilitate collaboration and to plan quality educational provision that will bring benefits to young people and adults in the region, and will meet the needs of the local and international economy.

Despite challenging circumstances for the further education sector, the Grŵp continued to perform positively and in 2024/25 its consolidated EBITDA surplus was £3.15 million (3.3%) (College surplus £2.60 million (2.9%). The reduction in EBITDA compared to 2023/24 was mainly due to a reduction in real terms in the grants received from Welsh Government, but nevertheless the Grŵp had a good financial health score.

As the Grŵp launched Project Ambition, its new programme for continuous quality improvement, it was a pleasure to welcome Estyn to our campuses during the year to see for themselves how we have responded to some of their recommendations since their full inspection of further education in 2023/24. There were several visits and thematic reviews by Estyn during the year, which gave us the opportunity to share information about the good work being undertaken at Grŵp Llandrillo Menai. These visits are welcomed as they are an opportunity for us to focus on discussing with them the various sectors we are part of and receive their feedback for continuous improvement.

As a result of the excellent work by all the staff in responding to Project Ambition and implementing it, we saw an increase in quality across all our provision. Our Further Education results were 85%, which is 5% higher than the national comparator and our Work Based Learning achievements rose to 76%, a 3% increase compared to the results in 2023/24. These successes and the wonderful experiences our learners have would not be possible without committed and professional staff. We sincerely thank all our staff - both academic staff and support staff - at the end of another challenging but successful year for the Grŵp.

As we look to the future, we will be keeping a close eye on the exciting developments on the horizon as the Anglesey Free Port and the Artificial Intelligence Growth Zones are developed and the associated opportunities. We will also be eager to take advantage of the opportunities in our base economy as housing associations are spending over £2million on upgrading their housing stock, and of course the proposed developments at Wylfa and in coastal Wind Energy technology.

During 2025/26 we look forward to developing our relationship with MEDR, the new regulator of Tertiary Education, and to ensuring that we continue to develop and strengthen our strategic work with the four local authorities, in order to ensure that the young people and adults in our communities receive suitable support to upskill, and to develop their knowledge and employability.

Finally, all our learners who have successfully completed their studies with us during the year deserve to be congratulated. We are extremely proud of the way the Grŵp has been able to support and promote the well-being of our learners through various interventions and programmes, such as Camau Cefnogol / Supportive Steps, which has given well-being support to over 3000 learners during the year and enabled them to complete their studies successfully. We are extremely proud of our learners and they are highly regarded and respected. We wish them every success in the future.

Dr Griff Jones
Cadeirydd
Chair

Grŵp
Llandrillo Menai

Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad
Our Values and Behaviours



CYDRADDOLDEB

- Byddaf yn gwerthfawrogi ymdrechion pobl eraill
- Byddaf yn parchu iaith a diwylliant Cymru
- Byddaf yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a chynhwysiant

YMDDIRIEDAETH

- Byddaf yn gwrando ar eraill
- Byddaf yn rhoi rhyddid i eraill wneud eu dewisiadau eu hunain
- Byddaf yn agored gydag eraill



TEGWCH

- Byddaf yn trin pawb yn ddiduedd
- Byddaf yn ystyried anghenion pobl eraill
- Byddaf yn dangos dealltwriaeth tuag at eraill

GONESTRWYDD

- Byddaf yn dweud y gwir
- Byddaf yn atebol
- Byddaf yn agored

UCHELGAIS

- Byddaf yn anelu at y safonau uchaf
- Byddaf yn manteisio'n llawn ar bob cyfle
- Rwyf yn agored i syniadau newydd

Yn greiddiol i'n gwerthoedd...

PARCH

RESPECT

...is core to our values



EQUALITY

- I will value the efforts of others
- I will respect the language and culture of Wales
- I will promote and celebrate diversity and inclusion

TRUST

- I will listen to others
- I will give autonomy to others
- I will be open with others



FAIRNESS

- I will treat everyone impartially
- I will accommodate the needs of others
- I will be understanding of others

HONESTY

- I will be truthful
- I will be accountable
- I will be transparent

AMBITION

- I will aspire to the highest standards
- I will take full advantage of all opportunities offered
- I am open to new ideas

EIN 5 THEMA ALLWEDDOL
OUR 5 KEY STRATEGIC THEMES

DARLLENWCH EIN CYNLLUN STRATEGOL LLAWN YMA
READ OUR FULL STRATEGIC PLAN HERE

CYFLEOEDD I DDYSGWYR A LLWYDDIANT DYSGWYR
LEARNER OPPORTUNITY AND SUCCESS

Illia yn sicrhau ei le ym Mhrifysgol Rhydychen

Cafodd y gŵr ifanc 20 oed o Wcráin ganlyniadau rhagorol yn ei arholiadau Safon Uwch yng Ngholeg Llandrillo ac mae bellach yn astudio Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen.

Illia secures Oxford University place

The 20-year-old from Kyiv in Ukraine completed his A-levels at Coleg Llandrillo, and now studies Philosophy, Politics and Economics at Oxford University's Christ Church college.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Bryn Williams a Choleg Llandrillo yn lansio Rhaglen Llysgenhadon i fentora pobl ifanc dalentog ym maes lletygarwch

Bydd Rhaglen Llysgenhadon Bryn Williams@Coleg Llandrillo yn cynnig profiadau gwerthfawr i fyfyrwyr ac yn rhoi hwb i'r diwydiant lletygarwch lleol drwy gynnig cyfleoedd mentora arbennig i ddysgwyr y coleg.

Bryn Williams and Coleg Llandrillo launch Ambassador Programme to mentor young talent in hospitality

The Bryn Williams Ambassador Programme@Coleg Llandrillo provides an invaluable opportunity for students and boost the local hospitality industry, through offering an exclusive mentoring programme to the college learners.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Harry'n ennill y wobr aur yn y gystadleuaeth plastro yn Rownd Derfynol Genedlaethol Cystadleuaeth SkillBuild

Enillodd prentis Derwen Llŷn, Harry Sutherland, fedal aur mewn plastro wrth gynrychioli Grŵp Llandrillo Menai yn Rownd Derfynol Genedlaethol SkillBuild 2024. Daeth Harry, 21 oed, o Sarn Mellteyrn ym Mhen Llŷn, i'r brig yn y Deyrnas Unedig ar ôl tridiau o gystadlu brwd yn Milton Keynes.

Harry wins plastering gold in SkillBuild National Final

Derwen Llŷn apprentice Harry Sutherland won gold in plastering while representing Grŵp Llandrillo Menai in the 2024 SkillBuild National Final. The 21-year-old from Sarn Meyllteyrn in Pen Llŷn finished top in the UK after three days of intense competition in Milton Keynes.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Addysg Oedolion yn Arwain at Ddyfodol Mwy Disglair i Shahidah

Mae gan ddysgwr rhan-amser o Goleg Menai ddyfodol addawol o'i blaen wedi iddi gael cefnogaeth a chyfleoedd gwerthfawr wrth ddilyn amrywiaeth o gyrsiau dysgu gydol oes drwy Potensial.

Shahidah's Journey to a Brighter Future through Adult Education

A part-time learner at Coleg Menai is building a promising future with the valuable opportunities and support she received during her time at college, through studying a variety of lifelong learning courses through Potensial.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai'n ennill 34 o fedalau yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru

Cipiodd dysgwyr a phrentisiaid Coleg Menai, Coleg Meirion-Dwyfor, Coleg Llandrillo a Busnes@LlandrilloMenai 10 medal aur, yn cynnwys tair gwobr Gorau yn y Rhanbarth Gyda'i gilydd enillodd ein dysgwyr a'n prentisiaid 34 o fedalau mewn categorïau mor amrywiol â Gofal Plant, Cyfrifeg, Dylunio Graffig ac Ynni Adnewyddadwy.

Grŵp Llandrillo Menai learners win 34 medals at Skills Competition Wales

Learners and apprentices at Coleg Menai, Coleg Meirion-Dwyfor, Coleg Llandrillo and Busnes@LlandrilloMenai brought home 10 golds, including three Best in Region. In total, our students and apprentices won an impressive 34 medals, ranging from categories including Childcare, Accountancy, Graphic Design and Renewable Energy.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Profiad gwaith Owena and Chayika gyda chyfreithwyr Caerdydd a Llundain

Dewiswyd y myfyrwyr o Goleg Meirion-Dwyfor ar gyfer cynllun LEDLET sy'n cefnogi pobl ifanc o Gymru sydd eisiau gweithio ym maes y gyfraith. Dewiswyd Owena Williams a Chayika Jones gan Lord Edmund Davies Legal Educational Trust (LEDLET) i gael profiad uniongyrchol o'r proffesiwn.

Owena and Chayika work with London and Cardiff lawyers

The Coleg Meirion-Dwyfor students were selected for the LEDLET scheme, which supports young people in Wales who want to work in law. Owena Williams and Chayika Jones were selected by the Lord Edmund Davies Legal Educational Trust (LEDLET) to gain first-hand experience of the profession.

DATA LLWYDDIANT MYFYRWYR
STUDENT SUCCESS DATA

Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Grŵp Llandrillo Menai, gyda hyd yn oed mwy o ddysgwyr na'r llynedd yn cyflawni eu cymwysterau.

2024/25 has been a very successful year for Grŵp Llandrillo Menai, with growth in the number of learners achieving their qualification compared to last year.

Mae'r canlyniadau Addysg Bellach yn dda iawn gyda 95% o'r dysgwyr yn ennill eu prif gymwysterau galwedigaethol, sef cynnydd o 1% ers 2023/24. Cynyddodd nifer y dysgwyr a gafodd raddau A*-A yn eu harholiadau Safon Uwch i 24% a chafodd 76% raddau A*-C. Enillodd 21% o'r dysgwyr galwedigaeth y graddau uchaf posibl sef Rhagoriaeth neu Ragoriaeth* (+4% ers 2024) a chafodd 62% raddau Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Ragoriaeth* (+12% ers 2024).

Further Education results are very good with 95% of learners attaining their main vocational qualifications, an increase of 1% since 2023/24. We have seen an increase in the number of learners achieving A-level grades of A*-A to 24% and 76% attained A*-C grades. 21% of Vocational learners achieved the highest Distinction or Distinction* grade (+4% vs 2024), and 62% have achieved a Merit to Distinction* (+12% vs 2024).

95%

Mae'r gyfradd gwblhau ar gyfer rhaglenni Addysg Uwch wedi cynyddu 7% i 88%, ac ar y cyd â chyfradd gyrhaeddiad o 96% golyga hyn bod mwy o ddysgwyr na'r llynedd wedi llwyddo i ennill eu cymwysterau.

Higher Education completion rates have increased significantly by 7% to 88%, and combined with attainment of 96% means that more learners were successful in achieving their qualification compared to the previous year.

96%

Mae cyrhaeddiad dysgwyr ar gyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gyson â'r gyfradd o 93% a gyflawnwyd y llynedd ac mae hyn yn dda iawn.

Adult and Community Learner attainment rates are consistent with the prior year at 93% which is very good.

93%

Cafwyd cynnydd o 4% yn y canlyniadau Dysgu Seiliedig ar Waith, a dengys hyn bod y camau a gymerwyd yn 24/25 i wella perfformiad wedi bod yn llwyddiannus iawn a bod yna sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant pellach yn 25/26.

Work-based learning outcomes have increased by 4% which shows that action taken to improve performance in 24/25 has been very successful, and is a firm foundation for further improvement in 25/26.

AB - PRIF GYMWYSTERAU FE MAIN QUALIFICATIONS	CWBLHAU COMPLETION*	CYRHAEDDIAD ATTAINMENT*
22/23 Lefel A / A Level	96%	97%
23/24 Lefel A / A Level	92%	93%
24/25 Lefel A / A Level	93%	93%
22/23 Galwedigaethol / Vocational	87%	93%
23/24 Galwedigaethol / Vocational	87%	94%
24/25 Galwedigaethol / Vocational	90%	95%

* Mae canlyniadau Prif Gymwysterau Galwedigaethol AB 2021/22 a 2022/23 wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodoleg newydd Llywodraeth Cymru felly nid oes modd eu cymharu â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol./ *2021/22 & 2022/23 FE Main Vocational results have been calculated using the new Welsh Government methodology which are not comparable to previous years results.

POB CYMHWYSTER AU HE ALL QUALIFICATIONS	CWBLHAU COMPLETION	CYRHAEDDIAD ATTAINMENT
22/23	85%	95%
23/24	81%	97%
24/25	88%	96%

DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED ADULT COMMUNITY LEARNING	CWBLHAU COMPLETION	CYRHAEDDIAD ATTAINMENT
22/23	93%	95%
23/24	95%	93%
24/25	93%	93%

Cwblhau yw canran y dysgwyr a gwblhaodd eu cymhwyster. Cyrhaeddiad yw canran y dysgwyr a enillodd eu cymhwyster.
Completion is the percentage of learners who completed their qualification. Attainment is the percentage of learners who gained their qualification.

DYSGU SEILIEDIG AR WAITH WORK-BASED LEARNING	Y CYFAN ALL
22/23	76%
23/24	71%
24/25	75%

GRŴP LLANDRILLO MENAI YN CAEL ADBORTH RHAGOROL GAN EI DDYSGWYR

Grŵp Llandrillo Menai sgoriodd uchaf yn y wlad am Foddhad Cyffredinol am yr ail flwyddyn yn olynol yn yr arolwg blynyddol o ddysgwyr addysg uwch

Grŵp Llandrillo Menai a gyflawnodd y gyfradd 'Boddhad Cyffredinol' uchaf yng Nghymru yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2025 - am yr ail flwyddyn yn olynol.

Cafodd grŵp y coleg sgôr gadarnhaol o 88% yn yr arolwg blynyddol o ddysgwyr addysg uwch. Roedd hyn yn uwch nag unrhyw brifysgol arall yng Nghymru, a 6% yn uwch na chyfartaledd y DU.

Sicrhaodd y Grŵp y safle uchaf yng ngogledd Cymru hefyd am 'Boddhad Cyffredinol ag Addysgu' (89.2% yn gadarnhaol) a chanlyniad uwch na chyfartaledd y DU mewn 25 allan o 27 o gwestiynau'r arolwg.

EXCELLENT FEEDBACK FROM LEARNERS ABOUT GRŴP LLANDRILLO MENAI

Grŵp Llandrillo Menai scored highest in the country for Overall Satisfaction for the second consecutive year in the annual survey of higher education learners

Grŵp Llandrillo Menai achieved the highest 'Overall Satisfaction' rate in Wales in the 2025 National Student Survey - for the second year in a row.

The college group had an 88% positive score in the annual survey of higher education learners. This was higher than any other university in Wales, and 6% above the UK average.

The Grŵp also secured the top spot in North Wales for 'Overall Satisfaction with Teaching' (89.2% positive) and outperformed the UK average in 25 out of 27 survey questions.

THEMA STRATEGOL **STRATEGIC THEME**

EIN LLE YN Y GYMUNED
OUR PLACE IN THE COMMUNITY

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Agor Canolfan Dysgu Cymunedol ar Stryd Fawr Bangor

Cafodd ein canolfan dysgu cymunedol newydd ar Stryd Fawr Bangor ei hagor yn swyddogol gan Ken Skates AS, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Mae 'Tŷ Cyfle' yn cynnig cyrsiau am ddim mewn sgiliau cyflogadwyedd, cyfrifiadura a llythrennedd digidol, gwnïo, ffotograffiaeth ddigidol ac ESOL.

Community Learning Centre Opens on Bangor High Street

Our brand new learning hub on Bangor's High Street was officially opened by Ken Skates MS, the Welsh Government Cabinet Secretary for Transport and North Wales. 'Tŷ Cyfle' provides free part-time courses in employability, computing and digital literacy, sewing, digital photography and ESOL (English for Speakers of Other Languages)

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Aaron yn ennill gwobr gan y Gwasanaeth Tân am ei waith ar Stori Olivia

Cafodd Aaron Beacher, Swyddog Cyfoethogi Profiadau Myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai, ei gydnabod am rannu neges bwerus am ddiogelwch ar y ffyrdd. Derbyniodd Aaron y wobr ar ran y Grŵp am ei waith yn cyflwyno 'Stori Olivia', ffilm bwerus am ddiogelwch ar y ffyrdd, i fyfyrwyr yng ngogledd Cymru.

Aaron wins Fire Service award for his work with Olivia's Story

Student Enrichment Officer Aaron Beacher was recognised for sharing a powerful road safety message across Grŵp Llandrillo Menai's campuses. Aaron received the award on behalf of the Grŵp, for his work in bringing powerful road safety film 'Olivia's Story' to students across North Wales.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Weminar gan y Grŵp ar Astudiaethau Byddardod yn torri tir newydd

Gweithiodd Grŵp Llandrillo Menai ar y cyd â phrosiect WULF Cymdeithas y Swyddogion Carchar i gyflwyno'r weminar i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cyflwynwyd y weminar gan Abi Woodyear, cydlynydd cyrsiau Astudiaethau Byddardod/ BSL y Grŵp i sefydliadau oedd yn cynnwys y gwasanaeth carchardai a phrawf, yr heddlu a'r gwasanaeth tân, a chynghorau lleol.

Grŵp delivers pioneering deaf studies webinar

Grŵp Llandrillo Menai and the Prison Officers Association's WULF project collaborated to deliver a webinar to public-sector organisations across Wales. It was delivered by the Grŵp's Deaf Studies/BSL Co-ordinator Abi Woodyear to organisations including the prison and probation services, fire and police services, and local councils.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Estyn yn Canmol Darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Siroedd Conwy a Dinbych

Mewn cydweithrediad ag Addysg Oedolion Cymru, ac o dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, mae'r bartneriaeth yn darparu dewis eang o gyrsiau rhan-amser i oedolion mewn cymunedau ledled y ddwy sir. Tynnodd yr arolygiad sylw at arweinyddiaeth gref ac ymdrechion cydweithredol y bartneriaeth ynghyd â llwyddiannau'r dysgwyr.

Adult and Community Learning in Conwy and Denbighshire Earns High Praise in Latest Estyn Report

Led by Grŵp Llandrillo Menai, the partnership delivers an extensive range of part-time and adult education courses within communities across both counties, in collaboration with Adult Learning Wales. The inspection highlighted the partnership's strong leadership, collaborative efforts, and the impressive achievements of its learners.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Coleg Llandrillo'n cynnal twrnamaint pêl-droed blynyddol yr Urdd i ysgolion cynradd

Cynhaliodd Coleg Llandrillo dwrnamaint pêl-droed blynyddol Urdd Conwy i ysgolion cynradd, gan groesawu 30 o dimau a bron i 400 o blant o bob rhan o'r sir. Roedd y gystadleuaeth yn gyfle i blant, staff y coleg a myfyrwyr ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, gydag Ysgol Craig y Don yn fuddugol ac yn sicrhau lle yn rownd derfynol genedlaethol 2025.

Coleg Llandrillo hosts annual Urdd primary football tournament

Coleg Llandrillo hosted the annual Urdd Conwy open primary school football tournament, welcoming 30 teams and almost 400 children from across the county. The competition was a chance for children, college staff and students to develop their use of Welsh, with Ysgol Craig y Don winning to secure a place in the 2025 national final.

THEMA STRATEGOL **STRATEGIC THEME**

DEFNYDDIO SGILIAU A GWYBODAETH I YSGOGI'R ECONOMI
DRIVING THE ECONOMY THROUGH SKILLS AND KNOWLEDGE

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Busnes@LlandrilloMenai yn lansio ei ganolfan hyfforddi newydd ym Mharc Busnes Llanelwy

Trwy gynnig ystod amrywiol o gyfleoedd hyfforddi, bydd y safle newydd yn grymuso busnesau, sefydliadau, a gweithwyr gan roi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau twf cynaliadwy a llwyddiant hir dymor.

Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu sefydliadol, micro-ddysgu ac atebion hyfforddi pwrpasol.

Busnes@LlandrilloMenai launches new training destination at St Asaph Business Park

Through a diverse range of training solutions, the new site empowers businesses, organisations, and their employees with the skills and knowledge needed to achieve sustainable growth and long-term success.

The programme of provision focuses on organisational development, MicroLearning and customised training solutions.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Glynllifon yn arddangos dyfeisiau newydd AgriTech

Ymwelodd partneriaid Clwstwr AgriTech Cymru â'r campws diwydiannau'r tir i ddysgu rhagor am y datblygiadau technolegol a allai fod o fudd i'r sector amaethyddol.

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn bartner amlwg yn y clwstwr, a gwahoddodd aelodau eraill i weld y gwaith sy'n digwydd ar gampws Glynllifon a fydd o fudd nid yn unig i'w fyfyrwyr, ond i fusnesau yn y diwydiannau ffermio a choedwigaeth.

Glynllifon showcases pioneering Agri-Tech innovation

Partners in the Agri-Tech Cymru Cluster recently visited the land-based campus to learn more about technological developments that could benefit the agricultural sector.

Grŵp Llandrillo Menai is a prominent partner in the cluster, and invited other members to see the work taking place at the Glynllifon campus that will benefit not only its students, but businesses in the farming and forestry industries.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Coleg Menai – Cartref cyntaf Accounting Club Educators yng Nghymru

Mae'r darlithwyr Guto Jones a Carwyn Jones wedi cymhwyso i gyflwyno rhaglen ddifyr a rhyngweithiol a fwriadwyd i wella llythrennedd ariannol pobl ifanc.

Mae Accounting Clubs in Schools yn rhaglen 10 wythnos sy'n darparu addysg ariannol i bobl ifanc 16-18 oed ar ffurf gweithgaredd cyfoethogi profiadau.

Coleg Menai profits from having Wales' first Accounting Club Educators

Lecturers Guto Jones and Carwyn Jones qualified to deliver an engaging, interactive programme aimed at improving young people's financial literacy.

Accounting Clubs in Schools is a 10-week programme that provides financial education as an enrichment activity for 16-18 year olds.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Darlithwyr yn rhannu profiadau mewn cynhadledd beirianneg bwysig

Aeth staff o Grŵp Llandrillo Menai i ddigwyddiad cenedlaethol a drefnwyd gan gwmni technoleg Autodesk a WorldSkills UK ac a oedd yn cynnwys cyfres o ddosbarthiadau meistr technegol. Cafodd y darlithwyr Bryn Jones, Eva Voma a Geraint Rowlands wahoddiad i siarad yn y gynhadledd, a oedd yn anelu at hyrwyddo manteision cystadlaethau sgiliau ym maes technolegau newydd.

Lecturers share cutting-edge engineering knowledge at UK conference

Grŵp Llandrillo Menai staff attended a national event hosted by tech giant Autodesk and WorldSkills UK, which featured a series of technical masterclasses. Lecturers Bryn Jones, Eva Voma and Geraint Rowlands were all invited to speak at the conference, which aimed to promote the benefits of skills competitions within emerging technologies.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Coleg Llandrillo a Betsi Cadwaladr yn dathlu dysgwyr Ymarfer Gofal Iechyd

Roedd y digwyddiad yn Venue Cymru yn nodi cyflawniadau academaidd mwy nag 80 o weithwyr cymorth gofal iechyd sydd wedi cwblhau'r Tystysgrif Addysg Uwch Lefel 4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd. Mae'r rhaglen yn deillio o bartneriaeth strategol gryf ac ymroddedig rhwng Coleg Llandrillo, Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor ac mae wedi'i chomisiynu a'i chefnogi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Coleg Llandrillo and Betsi Cadwaladr celebrate Healthcare Practice learners

The event at Venue Cymru marked the academic achievements of more than 80 healthcare support workers who achieved the Level 4 Certificate of Higher Education in Healthcare Practice. The programme results from a strong and committed strategic partnership between Coleg Llandrillo, Betsi Cadwaladr and Bangor University and has been commissioned and supported by Health Education and Improvement Wales.

THEMA STRATEGOL **STRATEGIC THEME**

BOD AR FLAEN Y GAD YN Y BYD MODERN
LEADING THE WAY IN A MODERN WORLD

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Babcock a Grŵp Llandrillo Menai yn ehangu Hyfforddiant Arbenigol yn RAF y Fali

Bydd cytundeb newydd i gynyddu hyfforddiant awyrennol yn RAF y Fali yn sicrhau manteision gwirioneddol i staff Babcock sy'n gweithio ar y safle. Gan weithio gyda chorff dyfarnu EAL, mae Babcock a Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu saith rhaglen hyfforddiant arbenigol newydd (IVPs) i staff Babcock sy'n rhan o Gontract Hawk y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Babcock and Grŵp Llandrillo Menai expand Specialist Training at RAF Valley

A new agreement to increase the provision of aeronautical training at RAF Valley is set to deliver real benefits for Babcock personnel employed at the base. Working together with the awarding body the EAL, Babcock and Grŵp Llandrillo Menai have established seven new specialised training programmes called Industrial Vocational Pathways (IVPs) for Babcock personnel employed on the Ministry of Defence Hawk Contract.

ERTHYGL AR-LEIN CYM ONLINE ARTICLE ENG

Grŵp Llandrillo Menai ar y blaen wrth ddarparu Addysg Uwch yn y Gymraeg

Mae adroddiad wedi canfod mai'r Grŵp sydd â'r gyfran uchaf yn y wlad o fyfyrwyr lefel prifysgol sy'n astudio yn y Gymraeg. Canfu adroddiad Medr fod 31% o fyfyrwyr Addysg Uwch Grŵp Llandrillo Menai'n astudio cyfran o'u cyrsiau trwy'r Gymraeg, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 4%.

Grŵp Llandrillo Menai leads the way in delivering Higher Education in Welsh

A report has found that the Grŵp has the highest proportion of university-level students in the country studying in Welsh. The report from Medr, found that 31% of Higher Education students at Grŵp Llandrillo Menai studied a proportion of their studies in Welsh, in comparison to the average of 4% of students nationally.

ERTHYGL AR-LEIN CYM

ONLINE ARTICLE ENG

Golau Gwyrdd i Brosiect Arloesol gwerth £19m fydd yn Paratoi Sector Twristiaeth Gogledd Cymru at y Dyfodol

Mae Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai wedi llofnodi cytundeb cyllid gwerth £4.43m a fydd yn datgloi buddsoddiad o £19m mewn hyfforddiant a chyfleusterau trosglwyddo gwybodaeth o safon fyd-eang ar draws pum lleoliad yng Ngogledd Cymru.

Green Light for Pioneering £19m Project to Future-Proof North Wales' Tourism Sector

Ambition North Wales and Grŵp Llandrillo Menai have signed a £4.43m funding agreement that will unlock a transformative £19m investment into world-class training and knowledge-transfer facilities across five locations in North Wales.

ERTHYGL AR-LEIN CYM

ONLINE ARTICLE ENG

Iestyn a'i waith fel arbenigwr pwnc gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bydd y darlithydd o Goleg Meirion-Dwyfor yn gwneud gwaith ymchwil pwysig i'r ddarpariaeth addysg ym maes adeiladu yng Nghymru. Bydd yn mynd ati i werthuso addasrwydd y deunyddiau presennol a nodi ble mae bylchau yn y ddarpariaeth, er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr adnoddau sy'n diwallu eu hanghenion dwyieithog.

Iestyn's new role as Coleg Cymraeg Cenedlaethol subject specialist

The Coleg Meirion-Dwyfor lecturer will carry out vital research into Welsh-language education provision in the construction sector in Wales. He is tasked with evaluating the suitability of existing resources, and identifying gaps to ensure learners benefit from education that meets their bilingual needs.

ERTHYGL AR-LEIN CYM

ONLINE ARTICLE ENG

Stephanie ar frig y don yn y diwydiant ynni gwyrdd

Dilynodd y cyn-fyfyriwr o Goleg Menai a Choleg Llandrillo gyrsiau Peirianneg Forol a Theithio a Thwristiaeth, ac mae hi bellach yn hyfforddi i fod yn swyddog ar long sy'n cefnogi gwaith ffermydd gwynt.

Stephanie making waves in green energy industry

The former Coleg Menai and Coleg Llandrillo learner studied Marine Engineering and Travel & Tourism, and is now training to be an officer on a ship supporting wind farms.

THEMA STRATEGOL **STRATEGIC THEME**

EIN RÔL MEWN CYMRU GYNALIADWY
OUR ROLE IN A SUSTAINABLE WALES

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Dysgwyr yn dysgu crefft gynaliadwy yng ngwarchodfa natur y Rhyl

Croesawodd Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych fyfyrwyr o gampws y Rhyl i Warchodfa Natur Pwll Brickfield am sesiwn ar blygu cyll. Dyma dechneg sy'n helpu i roi hwb i fioamrywiaeth trwy greu pentyrrau newydd o gynefinoedd i fywyd gwyllt lleol eu defnyddio a thrwy sicrhau bod mwy o olau yn cyrraedd llawr y coetir, gan roi cyfle i blanhigion eraill ffynnu.

Learners study sustainable craft at Rhyl nature reserve

Denbighshire Countryside Services welcomed Public Services students from the Rhyl campus to Brickfield Pond Nature Reserve for a session on how to carry out 'Hazel Hurdling', a technique that helps boost biodiversity by creating new habitat piles for local wildlife to use and letting more light hit the woodland floor, giving other plants the chance to thrive.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Madeleine ar y rhestr fer am wobr ynni genedlaethol

Roedd prentis o Grŵp Llandrillo Menai, Madeleine Warburton, ar y rhestr fer eleni am y wobr Rising Star yng Ngwobrau YEP (Young Energy Professionals).

Cwblhaodd Madeleine ei phrentisiaeth fel technegydd tyrbinau gwynt gyda chwmni ynni rhyngwladol RWE Renewables ar gampws y Rhyl.

Madeleine shortlisted for national energy award

Grŵp Llandrillo Menai apprentice Madeleine Warburton was shortlisted for the Rising Star accolade at this year's Young Energy Professionals (YEP) awards.

Madeleine completed her apprenticeship as a wind turbine technician with international energy company RWE Renewables at the Rhyl campus.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Coleg Llandrillo'n Croesawu 350 o blant i gymryd rhan yn yr Her Ynni Adnewyddadwy

Dysgodd disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd am bŵer gwynt, ynni cinetig, argraffu 3D ac ati gan gystadlu i adeiladu ceir model wedi'u pweru gan yr haul.

Coleg Llandrillo welcomes 350 children for Renewable Energy Challenge

Primary and secondary pupils learnt about wind power, kinetic energy, 3D printing and more, and competed to build the best solar-powered model cars.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Prif Weinidog Cymru'n ymweld â chanolfan ddatgarboneiddio arloesol

Daeth Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru i Dŷ Gwyrddfai, y ganolfan ddatgarboneiddio ym Mhenygroes, i weld sut mae'r ganolfan ar flaen y gad yn yr ymdrech i ddatgarboneiddio a chyrraedd targedau sero net.

Mae Busnes@LlandrilloMenai yn rheoli podiau hyfforddi ar y safle, ac yn darparu hyfforddiant ym maes datganrboneddio ac adeiladu i bobl ifanc a gweithwyr adeiladu, yn enwedig mewn meysydd fel inswleiddio waliau allanol, gosod a chynnal a chadw paneli solar, gosod systemau sy'n pwmpio gwres o'r aer a systemau storio batri.

First Minister visits ground breaking decarbonisation hub

First Minister of Wales, Eluned Morgan MS visited Tŷ Gwyrddfai, the decarbonisation hub in Penygroes to see how the facility is at the forefront of the decarbonisation agenda and efforts to reach net zero targets.

Busnes@LlandrilloMenai manages training pods on the site, delivering tailored decarbonisation and construction skills to young people and existing members of the construction workforce, especially in areas such as exterior wall insulation, installation and servicing of solar panels, air source heat pumps and battery storage.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

Yr Academi Ddigidol Werdd yn annog busnesau bach a chanolig yng ngogledd Cymru i ddatgarboneiddio

Dan arweiniad Busnes@LlandrilloMenai, mae'r Academi Ddigidol Werdd wedi helpu busnesau i arloesi, i ddatblygu'n ddigidol ac i fod yn fwy cynaliadwy. Y nod yw creu gwaddol a fydd yn cyfrannu at dwf economaidd a gallu'r rhanbarth i ddefnyddio arferion mwy cynaliadwy, fel ynni adnewyddadwy, ôl-osod, arbed ynni, datgarboneiddio a thechnoleg ddigidol.

Green Digital Academy drives decarbonisation for north Wales SMEs

Led by Busnes@LlandrilloMenai, the Green Digital Academy has furthered innovation, sustainability, and digital development amongst SMEs. The aim is to create a lasting legacy that supports regional economic growth by helping businesses adopt more sustainable practices - such as renewable energy, retrofitting, energy efficiency, decarbonisation and digital innovation.

EDRYCH YN ÔL
IN REVIEW

Paul Flanagan
Pennaeth,
Coleg Llandrillo
Principal,
Coleg Llandrillo

Coleg Llandrillo

Rwyf bellach wedi bod yn Bennaeth Coleg Llandrillo am flwyddyn gron, ac mae wedi bod yn un o gynnydd a llwyddiannau sylweddol i'n dysgwyr, ein cymunedau, a'r ardal rydym ni'n ei gwasanaethu.

Ledled y coleg rydym ni wedi bod yn recriwtio rhagor o ddysgwyr i Addysg Uwch a Dysgu Seiliedig ar Waith, yn enwedig yn y sectorau sy'n hanfodol i economi gogledd Cymru. Cafwyd cynnydd o 7% yn y nifer a gofrestrodd ar gyrsiau Addysg Bellach, gan ddangos hyder newydd yn ein darpariaeth. Am y tro cyntaf ers tair blynedd, fe wellodd ein cyfraddau presenoldeb a'n cyfraddau cadw, gan roi sylfaen gryfach i lwyddiant dysgwyr.

Fel y tystia canlyniadau ein dysgwyr, mae'r gwelliannau hyn wedi cael effaith wirioneddol. Cynyddodd cyfraddau llwyddiant y coleg cyfan 6.8%, gyda gwelliant o 3.3% yn Llandrillo-yn-Rhos a 17.4% yn y Rhyl. Mae campws y Rhyl yn parhau i gael ei drawsnewid gan fuddsoddiadau cyfalaf, ac eleni cwblhaodd 200 yn fwy o ddysgwyr na'r llynedd eu rhaglenni yno'n llwyddiannus. Atgyfnertha hyn yr enw da sydd gan y Rhyl am gynnig addysg dechnegol a galwedigaethol o'r radd flaenaf.

Mae dysgwyr Coleg Llandrillo wedi elwa hefyd ar raglen estynedig sy'n cynnig cyfleoedd i ymgysylltu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fe wnaethom ni gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol ac allanol, cryfhau ein gwaith gydag ysgolion, ac am y tro cyntaf erioed cynhaliwyd digwyddiadau Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn y coleg. Daeth hyn â dysgwyr o bob cwr o Gymru i'n campysau, gan roi cyfle iddynt ddefnyddio cyfleusterau o'r radd flaenaf i arddangos eu sgiliau.

Cyrhaeddodd ein dysgwyr y brig mewn cystadlaethau sgiliau cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddangos talent, uchelgais a phroffesiynoldeb eithriadol. Enillodd Madeleine Warburton, Prentis ym maes Tyrbinau Gwynt gyda RWE, fedalau yn rowndiau terfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a WorldSkillsUK. Ar hyn o bryd mae hi'n rhan o'r sgwad Ynni Adnewyddadwy ac yn aros i weld a fydd hi'n cael ei dewis i gynrychioli'r Deyrnas Unedig yn WorldSkills Shanghai 2026. Cynrychiolodd Yuliia Batrak, dysgwr ar y cwrs Diploma Lefel 3 mewn Goruchwylio Gweini Bwyd a Diod yn Broffesiynol, y Deyrnas Unedig yn EuroSkills 2025 yn Herning gan ennill Medal Ragoriaeth.

Mae hi hefyd wedi cyfrannu at drafodaeth genedlaethol am addysg ôl-16 yn y Senedd ac yn hyfforddi ar hyn o bryd i gael ei dewis i gystadlu ar brif lwyfan y byd yn Shanghai. Yn wir mae hi'n enghraifft berffaith o'r safonau uchel y gellir eu cyrraedd drwy ein darpariaeth alwedigaethol.

Mae ein hymrwymiad i sicrhau twf at y dyfodol yn parhau'n gryf. Parhau mae'r gwaith ar ein prif brosiectau cyfalaf, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Albert Gubay ar gyfer ein cyrsiau Gwaith Coed a Cherbydau Modur a fydd yn cryfhau ein darpariaeth dechnegol ymhellach ynghyd â'n cysylltiadau â chyflogwyr.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, am yr ail flwyddyn yn olynol rhoddodd ein myfyrwyr Addysg Uwch ni ar y brig am Foddhad Cyffredinol. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dysteb i'r effaith drawsnewidiol y gall cynnig darpariaeth addysg uwch safonol mewn partneriaeth â phrifysgolion a chyflogwyr lleol ei chael.

Mae'r cydweithio sy'n digwydd rhyngom ni a diwydiant yn parhau'n gryfder amlwg. Drwy bartneriaethau â chyflogwyr fel RWE a BIPBC, rydym ni'n cyd-gynllunio ac yn darparu rhaglenni sy'n rhoi profiadau trochol, uchel eu gwerth i ddysgwyr ac yn eu cefnogi i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i lenwi swyddi y mae galw mawr amdanynt yng ngogledd Cymru.

Ni fyddai dim o hyn yn bosibl oni bai am ymroddiad, proffesiynoldeb a gwaith caled ein staff sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial. Gyda'n gilydd, rydym ni'n parhau i ganolbwyntio ar lwyddiant dysgwyr, effaith economaidd, a sicrhau bod Coleg Llandrillo'n dal i fod yn destun balchder i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Yuliia Batrak

Partneriaeth â BCUHB / Partnership with BCUHB

The past year has marked my first full year as Principal of Coleg Llandrillo, and it has been one of substantial progress and significant achievement for our learners, our communities, and the region we serve.

Across the college, we have seen increased recruitment in Higher Education and Work-Based Learning, particularly in sectors critical to North Wales' economy. Full-time Further Education enrolments increased by 7%, reflecting renewed momentum and confidence in our offer. Significantly, for the first time in three years, both retention and attendance improved, providing a stronger foundation for learner success.

These improvements have translated into tangible impact, as evidenced by learner outcomes. College-wide success rates increased by 6.8%, with a 3.3% improvement at Rhos and a notable 17.4% improvement at Rhyl. Capital investment at the Rhyl campus continues to have a transformative impact, with over 200 more learners successfully completing programmes there than the previous year, reinforcing Rhyl's growing reputation for high-quality technical and vocational education.

Coleg Llandrillo learners have also benefited from an expanded programme of engagement and opportunity beyond the classroom. We delivered a wide range of community and outreach activities, strengthened our work with schools, and, for the first time, hosted Skills Competition Wales events at the college. These brought learners from across Wales to our campuses, showcasing both our outstanding facilities and the high standards they achieved.

Our learners also excelled in national and international skills competitions, demonstrating exceptional talent, ambition, and professionalism. Madeleine Warburton, a third-year Wind Turbine Apprentice with RWE, secured medals at both Skills Competition Wales and the WorldSkillsUK Finals and is currently part of SquadUK, awaiting selection to represent the UK at WorldSkills Shanghai 2026 in Renewable Energy. Yuliia Batrak, a learner on the Level 3 Diploma in Professional Food and Beverage Service Supervision, represented Team UK at EuroSkills 2025 in Herning, achieving a Medallion for Excellence.

She has also contributed to national discussions on post-16 education at the Senedd and is currently training for selection for the Skills Olympics in Shanghai, exemplifying the high-level outcomes achieved through our vocational and skills provision.

Our commitment to future growth remains strong. Work continues on major capital projects, including progress toward planning for the Albert Gubay Foundation Centre of Excellence for Carpentry and Motor Vehicle provision, which will further strengthen our technical offer and employer links.

For the second year running, our Higher Education students rated the Grŵp as the top provider in Wales for overall satisfaction in the National Student Survey. This recognition underscores the life-changing impact of high-quality higher education delivered locally, in partnership with universities and employers.

Collaboration with industry remains a defining strength. Through partnerships with employers such as RWE and BCUHB, we are co-designing and delivering programmes that provide immersive, high-value experiences for learners and support the development of skilled talent into high-demand, rewarding careers across North Wales.

None of this success would be possible without the dedication, professionalism, and commitment of our staff, who work tirelessly to support learners to achieve their potential. Together, we remain focused on learner success, economic impact, and ensuring Coleg Llandrillo continues to be a source of pride for the communities we serve.

Dr Siôn Peters-Flynn
Pennaeth, Coleg Menai
a Cholech Meirion-Dwyfor
Principal, Coleg Menai
and Coleg Meirion-Dwyfor

Coleg
Menai

Roedd 2024/25 yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Goleg Menai. Dechreuodd y flwyddyn gyda chyfnod cofrestru prysur a welodd gynnydd o bron i 10% yn nifer y dysgwyr.

Agorwyd Tŷ Cyfle ar Stryd Fawr Bangor gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru, Ken Skates. Mae'r ganolfan bellach wedi dod yn un bwysig i'r gymuned gan gynnig darpariaeth eang. Mae cyrsiau rhifedd, llythrennedd, llesiant, ffotograffiaeth, a hyd yn oed gwnïo ar gael. Diolch i'r buddsoddiad o £1.7m, mae'r ganolfan yn galluogi ein tiwtoriaid i gynnig cyrsiau i oedolion mewn man cyfleus yng nghanol y ddinas.

Rhoddwyd canmoliaeth fawr i gynllun Tai Cyfle'r Grŵp, y ddarpariaeth addysg oedolion ehangach, a'r gwersi ESOL, yn arolygiad Estyn o Bartneriaeth Dysgu Gwynedd a Môn. Tynnwyd sylw at yr amgylcheddau dysgu cynhwysol gan eu canmol am ddangos parch at ddysgwyr a gwneud iddynt deimlo'n emosiynol ddiogel ac yn gyfforddus i gymryd rhan. Cafodd ein tiwtoriaid eu cydnabod am eu gwaith hynod effeithiol yn meithrin perthnasoedd cryf â'u dysgwyr oedd yn arwain at gynnydd da yn eu sgiliau.

Yn ystod y flwyddyn, enillodd llawer o'n dysgwyr wobrau a llwyddiannau ar lefel genedlaethol a thu hwnt. Cynrychiolodd Evan Klimaszewski, dysgwr peirianneg ar gampws Llangefni, y Deyrnas Unedig yng nghystadleuaeth EuroSkills 2025 yn Nenmarc. Dangosodd Luke Quarless ei ddoniau yn rownd derfynol genedlaethol cystadleuaeth adeiladwaith SkillBuild ym Milton Keynes. Dewiswyd wyth o ddysgwyr Coleg Menai i gystadlu yn rowndiau terfynol cenedlaethol cystadlaethau WorldSkillsUK a SkillBuild 2025. Penodwyd Bryn Jones, darlithydd peirianneg yn Llangefni gan WorldSkills UK i hyfforddi un o dimoedd y Deyrnas Unedig ar gyfer cystadleuaeth ryngwladol WorldSkills yn Lyon.

Cafodd Anna Walker a Ffion Jones, myfyrwyr Celfyddydau Perfformio, eu cydnabod yng Ngwobrau 'It's My Shout 2025' – enillodd Anna wobr yr Actores Orau tra bod Ffion wedi ennill gwobr yr Actores Gefnogol Orau. Yng Ngwobrau Gwallt Cysyniadol y Deyrnas Unedig, enillodd Brooke Williams y gystadleuaeth Steilio Gwallt Lefel 1.

Dewiswyd gwaith Mali Smith a Cadi Richardson, myfyrwyr yn yr Adran Gelf, i fod yn rhan o arddangosfeydd nodedig yn y Mall Gallery a'r Kensington Design Museum yn Llundain.

Yn ystod y flwyddyn bu Casi Evans yn rhan o garfan pêl-droed dan 19 Cymru. Cafodd aelodau o Academi Pêl-droed Menai, Morgan Davies, Byron Davis a Rhys Williams, eu cydnabod yn seremoni wobrwyo flynyddol Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Cymru. Roedd Saran Griffiths yn rhan o garfan hyfforddi rygbi dan 18 Cymru. Enillodd Noa Vaughan fedal arian yn y ras dan ugain ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd Iau Prydain ac Iwerddon, ac roedd Ffion Humphreys yn rhan o garfan nofio Cymru.

Manteisiodd ein dysgwyr ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn nifer o deithiau addysgol. Cafodd ein dysgwyr trin gwallt daith fythgofiadwy i Japan i ddysgu am ddiwylliant y wlad a'i diwydiant gwallt a harddwch. Aeth ein dysgwyr Teithio a Thwristiaeth i Cologne i ddysgu rhagor am dwristiaeth, gan ymweld â marchnadoedd enwog y ddinas, Eglwys Gadeiriol Cologne, Ffatri Siocled Lindt ac amgueddfa gelf y Ludwig.

Rwyf yn hynod falch fod ein dysgwyr wedi dangos ymroddiad cryf i'w hastudiaethau drwy gydol y flwyddyn. O dan arweiniad ymroddedig ein staff fe gwblhaodd cyfran uchel iawn, dros 85%, o'n dysgwyr galwedigaethol eu cyrsiau ac ennill eu cymwysterau. Roedd dros 34% o raddau Safon Uwch ein dysgwyr yn A*/A; canran sylweddol uwch na'r un genedlaethol.

I gloi blwyddyn hynod lwyddiannus, daeth cyn-ddysgwr o'r coleg, y Farwnes Carmen Smith, aelod ieuengaf erioed Tŷ'r Arglwyddi, i roi anerchiad yn ein seremoni wobrwyo ac i longyfarch ein dysgwyr arbennig a'u teuluoedd.

Evan Klimaszewski

Taith Japan / Japan Trip

2024/25 was a very successful year for Coleg Menai. The year started with a busy registration period which saw an increase of almost 10% in the number of learners.

Tŷ Cyfle on Bangor High Street was opened by the Welsh Government Cabinet Secretary, Ken Skates. The centre has since become an important one for the community, offering a wide range of provision. Numeracy, literacy, wellbeing, photography and even sewing courses are available. Thanks to the £1.7m investment, the centre enables our tutors to offer lessons to adults in a convenient city centre location.

There was considerable praise for the Grŵp's 'Tai Cyfle', the wider adult education provision, and the English for Speakers of Other Languages provision, during the Estyn inspection of the Gwynedd and Anglesey Learning Partnership. Attention was drawn to the inclusive learning environments, which are respectful and emotionally safe, where learners feel comfortable participating. There was recognition of the highly effective work of our tutors in building strong relationships with their learners leading to good progress in their skills.

During the year, a number of our learners won awards and successes at national level and beyond. Evan Klimaszewski, an engineering learner on the Llangefni campus, represented the UK in the EuroSkills 2025 competition in Denmark. Luke Quarless showed off his skills at the national final of the SkillBuild construction competition in Milton Keynes. Eight Coleg Menai learners were selected in all to compete in the national finals of the WorldSkills UK and SkillBuild 2025 competitions. Bryn Jones, an engineering lecturer at Llangefni, was appointed by WorldSkills UK to train one of the UK teams for the international WorldSkills competition in Lyon.

Anna Walker and Ffion Jones, Performing Arts students, were recognised at the 'It's My Shout 2025' Awards, Anna won the Best Actress award while Ffion won the Best Supporting Actress award. At the UK Concept Hair Awards, Brooke Williams won the Level 1 Hairstyling competition.

The works of Mali Smith and Cadi Richardson, both students at the art department, were chosen to be part of notable exhibitions at the Mall Gallery and the Kensington Design Museum in London.

During the year, Casi Evans was part of the Welsh under-19 football squad. Members of the Menai Football Academy, Morgan Davies, Byron Davis and Rhys Williams were recognised at the annual awards ceremony of the Welsh Schools Football Association. Saran Griffiths was part of the Wales under-18 rugby training squad. Noa Vaughan won silver in the under-20 race at the British and Irish Junior Mountain Running Championships, and Ffion Humphreys was part of the Welsh swimming squad.

Our learners took advantage of opportunities to take part in a number of educational trips. Our hairdressing learners had a memorable trip to Japan to learn about the country's culture and hair & beauty industry. Our Travel & Tourism learners went to Cologne to learn more about tourism, visit the city's famous markets, Cologne Cathedral, the Lindt Chocolate Factory and the Ludwig art museum.

I am extremely proud that our learners showed such strong dedication to their studies throughout the year. Under the dedicated guidance of our staff, a very high proportion, over 85%, of our vocational learners completed their courses and gained their qualifications. Over 34% of our A level learners' grades were A*/A; a significantly higher percentage than the national average.

To conclude the highly successful year, former learner Baroness Carmen Smith, the youngest ever member of the House of Lords, came to address the crowd and congratulate our exceptional learners and their families as part of our awards ceremony.

Jack Williams

Salon newydd Dolgellau / New Dolgellau Salon

Dr Siôn Peters-Flynn
Pennaeth, Coleg Menai
a Choleg Meirion-Dwyfor
Principal, Coleg Menai
and Coleg Meirion-Dwyfor

Coleg
Meirion Dwyfor

Diolch i waith ymroddedig pawb sy'n rhan o gymuned y coleg, bu 2024/25 yn flwyddyn llawn llwyddiannau i'n dysgwyr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor. Enillodd 85% o'n dysgwyr galwedigaethol eu cymwysterau'n llwyddiannus a llwyddodd 80% o'n dysgwyr Safon Uwch i ennill gradd A*-C; cyfran uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

Yn ogystal, cafwyd nifer o lwyddiannau a gwobrau ehangach. Etholwyd Neli Rhys yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Daeth Jack Williams yn drydydd yng nghystadleuaeth Gweinydd Ifanc y Byd yn Singapore wedi iddo ennill y gystadleuaeth ar lefel Cymru yn gynharach yn y flwyddyn.

Arwyddodd y cyn-fyfyriwr Mared Griffiths ei chytundeb pêl-droed proffesiynol cyntaf gyda Manchester United. Enillodd Osian Morris wobr am fod y chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf yng ngwobrau blynyddol Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Cymru. Daeth dysgwyr o'r adran Sgiliau Bywyd a Gwaith ar gampws Dolgellau'n ail yn Nhwrnamaint Pêl-droed 'Ability Counts' Colegau Cymru. Chwaraeodd Troy Maclean, Llywydd Undeb y Myfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor, dros Gymru ym Mhencampwriaethau Pŵl Pêl-ddu Ewrop.

Enillodd band y Ddelwedd gystadleuaeth brwydr y bandiau yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Drwy Ymddiriedolaeth LEDLET cafodd Owena Williams a Chayika Jones eu dewis i fynd i Gaerdydd a Llundain i gael profiad gwaith gwerthfawr yn y proffesiwn cyfreithiol.

Aeth dysgwyr yr adran Celf, Dylunio a Chyfryngau i Gaerdydd i brofi rhai o uchafbwyntiau diwylliannol y brifddinas gan gynnwys gweld hunanbortread Vincent Van Gogh oedd ar fenthyg o'r Musee D'Orsay Paris. Ymwelodd sawl adran â Llundain yn ystod y flwyddyn; gwelodd dysgwyr yr adrannau Saesneg, Drama a Cherddoriaeth gynyrchiadau o sioeau poblogaidd a dramâu Shakespeare, tra aeth y dysgwyr Peirianneg Forol i weld y Cutty Shark a'r HMS Belfast.

Yn ystod y flwyddyn agorwyd salon gwallt a harddwch newydd ar gampws Dolgellau. Daeth llawer o'r cyhoedd i'r digwyddiad i glywed gan gynrychiolwyr L'Oréal a staff yr adran. Yn ogystal, cafwyd diwrnod cymunedol llwyddiannus iawn ar gampws CaMDA Dolgellau gyda llawer o deuluoedd a phobl o bob oedran yn dod ynghyd i fwynhau llu o weithgareddau. Yn goron ar y flwyddyn oedd y seremoni wobrwyo flynyddol a oedd yn ddathliad teilwng o gyflawniadau ein dysgwyr eithriadol.

Thanks to the dedicated work of everyone within the college community, 2024/25 has been a year full of successes for our learners at Coleg Meirion-Dwyfor. Eighty-five percent of our vocational learners successfully gained their qualifications and 80% of our A Level learners achieved an A*-C grade; a higher proportion than the average across Wales.

In addition there were a number of wider successes and awards. Neli Rhys was elected as a Member of the Welsh Youth Parliament. Jack Williams came third in the World Young Waiter competition in Singapore after he won the Wales national competition earlier in the year.

Former student Mared Griffiths signed her first professional football contract with Manchester United. Osian Morris was the most improved player in the Welsh Schools Football Association's annual awards. Learners from the Life and Work Skills department at the Dolgellau campus succeeded in coming second in Colegau Cymru's 'Ability Counts' Football Tournament. Troy Maclean, President of the Coleg Meirion-Dwyfor Students' Union, played for Wales in the European Blackball Pool Championships.

The band 'Y Delwedd' won the battle of the bands competition at the Wrexham National Eisteddfod. Owena Williams and Chayika Jones were chosen by the Lord Edmund Davies Legal Educational Trust to gain valuable experience of the legal profession in Cardiff and London.

Learners in the Art, Design and Media department visited Cardiff to experience some of the capital's cultural highlights including seeing Vincent Van Gogh's self-portrait which was on loan from the Musee D'Orsay in Paris. Several departments visited London during the year; English, drama and music learners saw productions of popular shows and Shakespeare plays, while learners on the Marine Engineering course visited the famous 'Cutty Shark' and HMS Belfast.

During the year the new hair and beauty salon at the Dolgellau campus was officially opened. Several members of the public attended the event to hear from L'Oréal representatives and department staff. In addition, a very successful community day was held at the CaMDA campus in Dolgellau, with many families and people of all ages coming to enjoy the range of activities. The year was crowned by our annual awards ceremony in a fitting celebration of the achievements of our exceptional learners.

Gwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith / Work-Based Learning Awards

Canolfan Technoleg Bwyd / Food Technology Centre

Gwenllian Roberts
Uwch Gyfarwyddwr - Datblygiadau Masnachol
Executive Director - Commercial Development

Busnes@ LlandrilloMenai

Yn ystod 2024/25, darparodd Busnes@LlandrilloMenai hyfforddiant masnachol a dysgu seiliedig ar waith o ansawdd uchel oedd yn diwallu anghenion cyflogwyr yng ngogledd Cymru.

Parhaodd prentisiaethau i fod yn ganolog, a chafwyd partneriaethau cryf mewn sectorau fel peirianneg, iechyd a gofal cymdeithasol, adeiladu a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd cydweithio â chyflogwyr fel Babcock yn RAF y Fali yn cryfhau ein darpariaeth arbenigol ac yn cefnogi datblygiad sgiliau yn y rhanbarth.

Cafodd llwyddiant ei ddathlu yn y Gwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith blynyddol oedd yn tynnu sylw at werth prentisiaethau.

Cefnogodd ein partneriaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd gynlluniau i ddatblygu'r gweithlu fel prentisiaethau lefel uwch a'r cynllun Peilot 'Academi Gofal' sy'n creu llwybrau dilyniant ym maes gofal, therapi a gwaith cymdeithasol. Derbyniodd y Brentisiaeth mewn Nyrsio Deintyddol gydnabyddiaeth genedlaethol yng Ngwobrau Rhagoriaeth Cymdeithas Nyrsys Deintyddol Prydain.

Cafodd ein prentisiaid AAT lwyddiant sylweddol mewn cystadlaethau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys medal aur yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru a medal efydd yn rownd derfynol WorldSkills UK.

Rhagorodd ein Canolfan Technoleg Bwyd, sy'n darparu Prosiect HELIX Llywodraeth Cymru, ar ei thargedau gan greu 320 o swyddi, diogelu 1,584 o swyddi, cynorthwyo 266 o fusnesau newydd a chael effaith ariannol gwerth £202 miliwn. Cafodd dysgwyr Glynllifon gyfle i ymweld â gweledydd tramor ac i gymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol a sioeau amaethyddol.

Drwy raglenni a ariennir a rhaglenni masnachol fel y Cyfrifon Dysgu Personol (PLA), cefnogwyd 954 o gofrestriadau mewn wyth maes. Cefnogodd prosiect Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru'r Gronfa Ffyniant Gyffredin 121 sefydliad a 366 gweithiwr cyflogedig, gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio, galluogrwydd digidol a dyfeisgarwch.

Roedd agor canolfan hyfforddi Busnes@LlandrilloMenai ym Mharc Busnes Llanelwy yn ehangu mynediad i brentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a darpariaeth hyblyg a phwrpasol. Lansiwyd yr Academi Croeso i gefnogi lletygarwch a thwristiaeth yng ngogledd Cymru a chynyddu'r niferoedd sy'n cael eu recriwtio i'r diwydiant ac yn aros ynddo i ddatblygu gyrfa.

Drwy'r gweithgareddau hyn, bu i Busnes@LlandrilloMenai wella sgiliau, cynhyrchiant a gwydnwch, gan gyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy.

During 2024/25, Busnes@LlandrilloMenai delivered high-quality work-based learning and commercial training across North Wales, aligned to employer demand.

Apprenticeships remained central, with strong partnerships in sectors like engineering, health and social care, construction, and public services. Collaboration with employers, including Babcock International at RAF Valley, strengthened specialist provision and supported regional skills pipelines.

Success was celebrated at the Annual Work-based Learning Awards, highlighting apprenticeship impact.

Partnerships with Betsi Cadwaladr University Health Board and Gwynedd Council supported workforce development, including higher-level apprenticeships and the 'Academi Gofal' pilot, creating progression routes in care, therapy, and social work. The Dental Nursing Apprenticeship received national recognition at the Society of British Dental Nurses Awards of Excellence.

AAT apprentices achieved success in Welsh and UK competitions, including Gold at the Welsh Skills Competition and Bronze at the WorldSkills UK Finals.

The Food Technology Centre, delivering the Welsh Government's HELIX Programme, exceeded targets, creating 320 jobs, safeguarding 1,584 jobs, supporting 266 start-ups, and generating £202 million in impact. At Glynllifon, learners excelled in international visits, national competitions, and agricultural shows.

Funded and commercial programmes, including Personal Learning Accounts, supported 954 enrolments across eight areas. The SPF 'Employer Skills North Wales' project supported 121 organisations and 366 employees, focusing on decarbonisation, digital capability, and innovation.

The opening of the Busnes@LlandrilloMenai training destination at St Asaph Business Park expanded access to flexible apprenticeships, professional training, and bespoke provision. Academi Croeso launched to support hospitality and tourism in North Wales, strengthening recruitment, retention, and progression.

Through these activities, Busnes@LlandrilloMenai enhanced skills, productivity, and resilience, contributing to sustainable economic growth.

Yn ystod 2024/2025, cwblhawyd yn llwyddiannus y broses o ail-frandio Hyfforddiant Gogledd Cymru fel COPA gan ddynodi carreg filltir bwysig yn nhwf a datblygiad y sefydliad. Eleni ehangwyd y ddarpariaeth ym maes prentisiaethau a chyflogadwyedd yn sylweddol, a gwelwyd cyflawniadau mawr mewn rhaglenni sgiliau i oedolion a rhaglenni cymunedol.

Cefnogodd COPA 251 o brentisiaethau newydd yng Nghymru a 223 yn Lloegr, ac roedd y cynnydd yn Lloegr 43% yn uwch na'r llynedd. Adlewyrcha'r twf hwn y galw cynyddol am hyfforddiant o ansawdd uchel i brentisiaid a safle gryfach COPA ym maes sgiliau yn y Deyrnas Unedig.

Drwy'r contract Twf Swyddi Cymru, ymgysylltodd COPA â 220 o bobl ifanc 16 i 19 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Aeth 64% ymlaen i addysg bellach, prentisiaeth neu gyflogaeth, gan ddangos deilliannau cryf o ran dilyniant a chynnal ymgysylltiad dysgwyr.

Parhaodd rhaglen Ailgychwyn/Restart Copa i wneud gwahaniaeth, gan gefnogi 114 o unigolion di-waith hirdymor ar draws gogledd Cymru i gael cyfleoedd cyflogaeth cynaledig.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, enillodd COPA gontract Benthyciad Addysg Oedolion, gan ymgysylltu â 39 o ddysgwyr newydd. Mae'r llwyddiant hwn wedi cyfrannu at gynnydd yng ngwerth y contract a'r posibilrwydd o dwf pellach ym mlwyddyn academaidd 2025/26.

Yn sgil contractau Lluosi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â GLlM, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cafodd 1,095 o unigolion gefnogaeth i wella eu sgiliau rhifedd, gan helpu oedolion i fagu hyder ar gyfer gwaith a bywyd bob dydd.

Yn ogystal, lansiodd COPA Wersylloedd Hyfforddi Sgiliau newydd yn Sir Gaerhirfryn, Sir Gaer a Warrington. Cafodd 52 o gyfranogwyr fudd o'r rhain ac roedd y gyfradd gwblhau o 91% yn brawf o ansawdd a pherthnasedd y ddarpariaeth.

Ym mis Hydref 2024 daeth FIT UK, darparwr hyfforddiant sydd wedi sefydlu'i hun yn Lloegr yn rhan o COPA. Mae'r buddsoddiad strategol hwn wedi galluogi COPA i fanteisio ar arbenigedd, isadeiledd a phresenoldeb FIT UK i gynyddu capasiti ein darpariaeth ymhellach ac i gyflymu ein twf ledled Lloegr.

At ei gilydd, mae 2024/2025 wedi bod yn flwyddyn o berfformiad cryf, ehangu strategol, ac ymrwymiad parhaus i ddarparu rhaglenni sgiliau, prentisiaeth a chyflogadwyedd o ansawdd uchel sy'n cefnogi dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau.

During 2024/2025, North Wales Training successfully completed its rebrand as COPA, marking an important milestone in the organisation's continued growth and development. This year saw significant expansion across apprenticeship delivery and employability provision, alongside major achievements in adult skills and community programmes.

COPA supported 251 new apprenticeship starts in Wales and 223 apprenticeship starts in England, representing a 43% increase on the previous year in England. This growth reflects both rising demand for high-quality apprenticeship training and COPA's strengthened position across the UK skills landscape.

Through our Jobs Growth Wales contract, COPA engaged 220 young people aged 16–19 who were not in education, employment or training (NEET). 64% progressed into further education, apprenticeships or employment, demonstrating strong outcomes in learner progression and sustained engagement.

COPA's Restart programme continued to make a meaningful impact, supporting 114 long-term unemployed individuals into sustainable employment opportunities across North Wales.

Later in the year, COPA secured an Adult Learner Loan contract, achieving 39 new learner starts. This success has contributed to an increased contract value and further growth potential in the 2025/2026 academic year.

Our Shared Prosperity Fund (SPF) Multiply contracts, delivered in partnership with GLLM, Flintshire County Council and Wrexham County Borough Council concluded with 1,095 individuals supported to improve their numeracy skills, helping adults build confidence and capability for work and everyday life.

COPA also launched new Skills Bootcamps in Lancashire and Cheshire & Warrington, benefiting 52 participants and achieving an excellent 91% completion rate, highlighting the quality and relevance of our accelerated skills training offer.

In October 2024, COPA completed the acquisition of FIT UK, an established England-based training provider. This strategic investment has enabled COPA to leverage FIT UK's expertise, infrastructure and market presence to further enhance our delivery capacity and accelerate growth across England.

Overall, 2024/2025 has been a year of strong performance, strategic expansion, and continued commitment to delivering high-quality skills, apprenticeship and employability programmes that support learners, employers, and communities.

Sharon Bowker
Uwch Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Corfforaethol
Executive Director - Corporate Services

Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Cafodd cyllid y Grŵp ei gydgrynhoi am y flwyddyn gyda'r gwarged EBITDA yn gostwng i £3.3m (3.8% o incwm). Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad termau real mewn grantiau derbyniadwy gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, cadwodd y Grŵp ei Fesur Perfformiad Ariannol "rhagorol", gyda'r holl rwymedigaethau dyled sy'n weddill yn cael eu talu erbyn mis Gorffennaf 2024.

Galluogodd y sefyllfa ariannol gref i'r Grŵp barhau i fuddsoddi yn ei ystâd. Cafwyd y gwariant cyfalaf mwyaf yn ystod y flwyddyn ar y campws newydd gwerth £20m+ ym Mangor a agorodd i ddysgwyr ym mis Medi 2024. Roedd hyn yn dilyn cwblhau adeilad Peirianneg y Rhyl y mis Hydref blaenorol. Yn ogystal, prynwyd adeiladau newydd ar Stryd Fawr Bangor yn ystod y flwyddyn i ddarparu cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a chwblhawyd mân waith cyfalaf arall o amgylch y Grŵp.

Ar ben y gwariant ar ei ystâd, parhaodd y Grŵp i fuddsoddi yn ei adnoddau a'i offer digidol. Ariannwyd hyn yn rhannol drwy gynllun parhaus Digidol 2030 Llywodraeth Cymru.

Chwaraeodd cynaliadwyedd a'r amgylchedd ran gynyddol bwysig ym mhenderfyniadau caffael a buddsoddi'r Grŵp. Yn ogystal â chynnal achrediad Lefel 5 o ran Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, bu'r Grŵp yn gweithio ar ddatblygu Strategaeth Cynaliadwyedd.

Ein hadnodd mwyaf gwerthfawr o hyd yw staff, a dyna pam mai buddsoddi mewn Adnoddau Dynol oedd gwariant mwyaf y Grŵp unwaith yn rhagor; yn ogystal â chostau staffio uniongyrchol, cafwyd gwariant ar ddarparu buddion ychwanegol i staff gan arwain at gynnal cyfraddau cryf y Grŵp o ran cadw staff.

CORPORATE SERVICES

Overall, the year saw a consolidation of the Grŵp's finances with a reduction in the EBITDA surplus to £3.3m (3.8% of income). This was largely due to a real term reduction in grants receivable from the Welsh Government. Despite this reduction the Grŵp maintained its "outstanding" Financial Performance Measure, with all remaining debt liabilities being paid off by July 2024.

The strong financial position allows the Grŵp to continue to invest in its estate. The largest capital outlay in the year has been on the £20m+ new Bangor Campus which opened to learners in September 2024. This followed the completion of the Rhyl Engineering building the previous October. Elsewhere, the year saw the purchase of new premises on Bangor High Street that delivers Adult and Community Learning (ACL) provision, as well as other minor capital works around the Grŵp.

In addition to expenditure on its estate, the Grŵp continues to invest in its digital resources and equipment. This is partly funded through the continuing Digital 2030 Welsh Government scheme.

Sustainability and the environment play an increasingly important role in the Grŵp's procurement and investment decisions. As well as maintaining its Level 5 Green Dragon Environmental accreditation the Grŵp has worked on developing a Sustainability Strategy.

Staff remains our most valuable resource, hence why investment in Human Resources remains the biggest expenditure of the Grŵp; and as well as direct staff costs, this also takes the form of provision of additional staff benefits which results in maintaining the Grŵp's strong staff retention rates.

James Nelson
Uwch Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Academaidd
Executive Director - Academic Services

Y GWASANAETHAU ACADEMAIDD

Diolch i Brosiect Uchelgais, sydd wedi cefnogi GLlM i ddarparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau cymorth o'r safon uchaf, cafodd y Gwasanaethau Academaidd flwyddyn ragorol. Cawsom gyfle i ddathlu'r llwyddiannau yn ein cynadleddau diwedd blwyddyn a fynychwyd gan 861 o staff.

Datblygodd a chyflwynodd Llyfrgell+ raglen AI newydd i ddysgwyr oedd yn dangos iddynt sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn foesegol i feithrin sgiliau ar eu cwrs ac ar gyfer eu cam nesaf i gyflogaeth.

Rydym ni wedi gweld cynnydd o 6% yn nifer y dysgwyr yn GLlM sydd wedi datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu haddysg a'u rhaglenni hyfforddi. Mae hyn oherwydd y gefnogaeth a'r hyfforddiant helaeth a ddarperir gennym drwy Sgiliaith, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Cymraeg Gwaith. O ganlyniad, mae GLlM yn parhau i fod yn brif ddarparwr addysg a hyfforddiant dwyieithog yng Nghymru.

Mae'r gefnogaeth ADY wedi mynd o nerth i nerth ac rydym ni bellach yn cefnogi dros 500 o ddysgwyr (yr uchaf yng Nghymru). Galluogodd y gefnogaeth arbenigol hon hwy i gyflawni 84% yn eu hasesiadau yn 2024/25.

Darparodd ein gwasanaethau cymorth dros 10,000 o ymyriadau i ddysgwyr oedd angen cefnogaeth yn y meysydd canlynol: cynhwysiant, lles, llesiant, presenoldeb a chynnydd. Drwy gael cymorth wedi'i dargedu llwyddodd 84% ohonynt yn eu hasesiadau yn 2024/25.

Rydym ni wedi lansio system dalu a chofrestru ar-lein newydd ar gyfer cyrsiau rhan-amser. Golyga hyn fod taith y dysgwr o'r chwilio cychwynnol i wneud cais a chofrestru yn gyflym a di-dor.

Rydym ni wedi lansio cyfleuster i wella cyfathrebu ac i leihau'r gwaith gweinyddol sydd ynghlwm â chofnodi absenoldeb drwy alluogi myfyrwyr i roi gwybod i'w tiwtoriaid ar-lein ar Edrac os ydynt yn mynd i fod yn absennol.

ACADEMIC SERVICES

Academic Services has had an excellent year, due to the implementation of Project Ambition which has supported GLLM to deliver education training and support services to the highest standard which benefit learners. We celebrated the successes in our end of year staff conferences which 861 attended.

Library+ developed and delivered a new AI programme for learners which showed them how they can use AI ethically to develop skills on their course and for their next step into employment.

We have seen a 6% increase in the number of learners who have developed their use of Welsh through their education and training programme at GLLM. This is because of the extensive support we provide through Sgiliaith, Coleg Cymraeg Cenedlaethol and Cymraeg Gwaith training and support. As a result of this GLLM continues to be the leading provider of bilingual education and training in Wales in all of our provision.

Our ALN support has moved from strength to strength and we are now providing support to over 500 learners (the highest in Wales). This specialist support enabled them to achieve 84% in their assessments in 2024/25.

Our support services delivered over 10,000 interventions to learners who needed support in the following areas; inclusion, welfare, wellbeing, attendance and progress. This targeted support enabled them to achieve 84% in their assessments in 2024/25.

We have launched a new online payment and enrollment system for part-time courses, which means that the learner journey from search, application to enrollment is seamless and quick.

We have launched a facility to improve communication and reduce the administrative burden of recording learner absence by allowing students to update their tutors if they are going to be absent online via Edrac.

PENAWDAU ARIANNOL
FINANCIAL HEADLINES

Yn strategaeth ariannol y Grŵp, ceir nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a fwriadwyd i sicrhau bod y Grŵp yn parhau'n sefydliad sy'n sefydlog yn ariannol ac sy'n gallu buddsoddi yn ei adnoddau er mwyn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i'w ddysgwyr.

The Grŵp's financial strategy outlines a number of specified KPIs aimed at ensuring the Grŵp remains a financially stable organisation, able to invest in its resources to provide the best possible learning environment for its learners.

Targed DPA KPI target	2025 Gwir Ganlyniad 2025 Actual Result	2024 Gwir Ganlyniad 2024 Actual Result	Asesiad o'r Cyflwr Ariannol Financial Health check Assessment
EBITDA > 4% incwm EBITDA > 4% income	Coleg/College 3.3% Grŵp 4.0%	Coleg/College 3.8% Grŵp 4.0%	●
Cymhareb asedau cyfredol net > 2 Net current asset ratio > 2	Coleg/College 6.53 Grŵp 3.71	Coleg/College 3.59 Grŵp 3.71	●
Benthyca <15% o'r incwm Borrowing <15% of income	Coleg/College 0.0% Grŵp 0.0%	Coleg/College 0.0% Grŵp 0.0%	●

At ei gilydd, mae'r gostyngiad yn lefel yr EBITDA wedi peri i fesurydd Iechyd Ariannol y Grŵp gael i leihau o "Rhagorol" i "Da". Mae'r gostyngiad a ddisgwylir yn lefel yr EBITDA yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn termau real yn yr incwm gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd y duedd hon yn parhau drwy 2025/26 ac ymlaen i 2026/27. Wedi hynny, dylai cynnydd yn nifer dysgwyr y Grŵp arwain at gynnydd yn yr incwm.

Fel y dengys ein hasedau cyfredol net a'n benthyciadau, mae'r Grŵp mewn sefyllfa ariannol i allu wynebu'r ddwy flynedd nesaf gan barhau i gynnal sylfaen ariannol gadarn.

Overall the EBITDA reduction has caused the overall Financial Health measure for the Grŵp to reduce from "Outstanding" to "Good". The expected reduction in EBITDA is largely due to a real terms reduction in income from Welsh Government. This trend is expected to continue through 2025/26 and into 2026/27 after which the increase in the Grŵp's learner numbers should pull through to increased income.

As shown in the net current asset and borrowing measures, the Grŵp is well placed financially to weather the next two years and still emerge with a strong financial base.

INCWM A GWARIANT
INCOME & EXPENDITURE



INCWM
INCOME

2025 (£,000)	2024 (£,000)		
£51,282	£48,546		ILlC / Grant Medr WG / Medr Recurrent Grant
£15,645	£14,453		Grant Dysgu Seiliedig ar Waith Work-based learning grant
£7,167	£8,795		Incwm o grantiau eraill yr AdAS Other DfES grant income
£4,136	£3,875		Ffioedd dysgu Tuition fees
£1,143	£935		Grant rheolaidd CCAUC HEFCW recurrent grant
£494	£808		Incwm breinio Franchise income
£1,507	£1,559		Incwm arlwyo Catering income
£1,021	£872		Incwm o weithgareddau ffermio Farming activities income
£7,573	£5,289		Incwm o grantiau eraill Other grant income
£5,208	£5,577		Incwm arall Other income
£95,176	**£90,709**		Incwm EBITDA EBITDA income
£5,599	£5,085		Incwm nad yw'n EBITDA Non EBITDA income
£100,775	**£95,794**		Cyfanswm incwm y Grŵp Total Grŵp income



GWARIANT
EXPENDITURE

2025 (£,000)	2024 (£,000)		
£67,162	£62,072		Costau staffio Staff costs
£9,278	£9,090		Costau addysgu nad ydynt yn ymwneud â thâl Teaching non-pay costs
£5,561	£5,714		Costau gweinyddu a chostau cyffredinol Administration and general costs
£7,802	£7,610		Costau mewn perthynas ag adeiladau Premises costs
£2,220	£2,608		Treuliau eraill Other expenses
£92,023	**£87,094**		Costau EBITDA y Grŵp **Grŵp EBITDA costs**
£8,513	£11,886		Costau nad ydynt yn EBITDA **Non EBITDA costs**
£100,536	**£98,980**		Cyfanswm Costau y Grŵp **Total Grŵp Costs**

GWARGED YN SGIL GWAREDU ASEDAU SEFYDLOG
SURPLUS ON DISPOSAL OF FIXED ASSETS

2025	2024
1,216	-

EBITDA (Enillion cyn Llog, Treth, Dibrisiad ac Amorteiddio)
EBITDA (Earnings before Interest, Taxes, Depreciation and Amortisation)

2025	2024	
£3,153	£3,615	Grŵp EBITDA
3.30%	4.0%	EBITDA fel % o incwm EBITDA as % of income
(£1,455)	(£3,186)	Gwarged y Grŵp Grŵp Surplus

Coleg Llandrillo

Coleg Llandrillo
Llandrillo-yn-Rhos
Conwy LL28 4HZ
01492 546 666

Coleg Meirion Dwyfor

Coleg Meirion-Dwyfor
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827

Coleg Menai

Coleg Menai
Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor LL57 4HJ
01248 370 125

Busnes@ LlandrilloMenai

Busnes@LlandrilloMenai
Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor LL57 4HJ
08445 460 460

COPA Reach Your Peak

COPA, Tŷ COPA
Argyll Road, Llandudno
Conwy LL30 1DF
01492 543 431

gllm.ac.uk